

LEWIS, ERASMUS (1670 - 1754), ysgrifennwr 'news-letters' a swyddog o dan Lywodraeth Prydain

Enw: Erasmus Lewis

Dyddiad geni: 1670

Dyddiad marw: 1754

Priod: Anne Lewis (née Jennings)

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: ysgrifennwr 'news-letters' a swyddog o dan Lywodraeth Prydain

Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil

Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd yn Abercothy, chwe milltir o dref Caerfyrddin. Aeth i Ysgol Westminster yn 1686, ac i Goleg y Drindod, Caergrawnt, 1690, gan raddio yn 1693. Ym mis Hydref 1698 yr oedd yn Berlin, gyda'i 'gâr,' George Stepney, ac yn ysgrifennu 'news-letters' at George Ellis, A.S., a cheisio rhyw swydd dan y Llywodraeth.

Ceir hanes ei yrfa yn y *D.N.B.*, ac felly nid oes eisiau yma ond cyfeirio mewn byr eiriau ato. Bu'n trafaelio ac yn byw yn Ewrop; yr oedd ganddo o bryd i bryd swydd o dan y Llywodraeth, e.e. yn Paris (1700 neu 1701). Ym mis Mehefin 1702 yr oedd yng Nghaerfyrddin, yn athro ysgol, efallai. Daeth yn ysgrifennydd i [Robert Harley \(iarll Oxford\)](#) wedi hynny yn 1704 ac yn 1708 yr oedd yn ysgrifennydd i Lywodraeth Prydain yn Brussels; bu wedyn yn is-ysgrifennydd gwladol yn Lloegr o dan iarll Dartmouth, etc. O 1710 ymlaen ceir cyfeiriadau mynych at Lewis gan y deon Swift yn ei *Journal to Stella*; yr oedd Lewis yn aelod o gylch llenyddol a gwleidyddol a gynhwysai Swift, [Robert Harley](#), Alexander Pope, John Arbuthnot, a g r na enwir mohono yn y cysylltiad hwn yn y *D.N.B.*, sef [Thomas Mansel, barwn 1af Mansel](#), Margam. Ceir amryw lythyrau, 1700-13, oddi wrth Lewis at [Mansel](#) yng nghasgliad Margam a Penrice yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru - llythyrau sydd yn llawn o newyddion (a siaradach) gwleidyddol, milwrol, a chymdeithasol, ac yn taflu llawer o olau ar hanes Lloegr ac Ewrop; yn un ohonynt (16 Medi 1704) dywed Lewis ei fod yn gobeithio ceisio prynu 'the Estate late Sir Rice Rudds, in Caermarthenshire.' Ym mis Hydref 1712 cafodd swydd ('provost-marshall-general') yn y Barbadoes, eithr cyflogodd ddirprwy i'w llanw drosto; ym mis Tachwedd y flwyddyn honno dewiswyd ef yn aelod seneddol dros Lostwithiel, Cernyw. Priododd, 1 Hydref 1724 (yn S. Benet, Paul's Wharf, Llundain), Anne Bateman (gynt Jennings), gweddw Thomas Bateman, a bu'n byw yn Cork Street, Burlington Gardens, Llundain. Bu Lewis farw 10 Ionawr 1754 a chladdwyd ef yn abaty Westminster; claddesid ei wraig yno eisoes (25 Tachwedd 1736). Gadawodd eiddo mewn gwahanol blwyfi yng Nghymru.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

At y cyfeiriadau a roddir yn y *Oxford Dictionary of National Biography* ychwaneger (a) ail gyfrol catalog Ll.G.C. o ddogfennau Margam a Penrice

(b) llythyr yngl n â churad Llanrhydian, G yr, oddi wrth Lewis at Richard Smallbroke, esgob Tyddewi, yng nghasgliad Lucas (Hwlfordd) yn Ll.G.C.

a (c) *NLW MS 3521*, yn cynnwys pedwar llythyr oddi wrth Lewis at y barnwr Henry Watkins, Westminster

A chofier am lythyrau Lewis sydd yng nghasgliad y Duke of Portland y cyfeirir atynt yn y *Oxford Dictionary of National Biography*

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [315695182](#)

Wikidata: [Q18593032](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Cheltauidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

